



4.0 Gwirfoddolwyr

Arferion Diogelu a Rheoli Da

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Arferion Rheoli Da
3. Diogelu
4. Gwybodaeth Bellach

Cyflwyniad

Rhaid i les plant ac oedolion fod yn brif ystyriaeth i unrhyw fudiad gwirfoddol y mae ei waith yn dod ag ef i gysylltiad â grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o wella bywydau pobl sy'n agored i niwed, ond nid yw pob gwirfoddolwr yn addas i'r math hwn o waith, ac yn achlysurol iawn, gall fod yn fgythyad. Mae hyn yn golygu cynnal asesiadau risg ar gyfer gwaith sy'n cynnwys grwpiau agored i niwed, mabwysiadu arferion gweithio diogel i helpu i leihau risg, cael arferion recriwtio a dethol da, a systemau goruchwylio cadarn.



Mae'r daflen wybodaeth hon hefyd yn ychwanegu at egwyddorion cyffredinol y daflen wybodaeth:

4.4 Recriwtio, Dethol a Chynefino Gwirfoddolwyr

Arferion Rheoli Da

Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn ymwneud ag ymdrin â phethau ansicr a lleihau neu gael gwared â ffactorau risg. Mae'r broses o reoli risg yn cynnwys nodi risgiau, penderfynu pa mor ddifrifol neu debygol ydynt o ddigwydd a rheoli'r risgiau hynny.

Os yw gwirfoddolwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant neu'n mynd i gartrefi pobl, rhaid i'r mudiad wneud popeth posibl i ddiogelu'r gwirfoddolwyr a'r unigolyn sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth, anaf neu golled.

Dyma'r camau priodol i'w cymryd:

- Sgrinio
- Cynefino a hyfforddi
- Asesu risg
- Cadw cofnodion
- Adolygu
- Yswiriant
- Gwirio cefndir gan gynnwys cael gafael ar gofnodion troseddol

Unwaith y bydd y risgiau wedi'u nodi, dylai mudiad ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig, llawlyfrau gwirfoddolwyr, llawlyfrau ymddiriedolwyr a ffurflenni ar gyfer asesu risg ac adrodd am ddigwyddiadau. Dylid datblygu strategaeth gyfathrebu hefyd gan sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r mudiad yn cael gwybod am y cynllun rheoli risg.

Cymorth a Goruchwyliaeth

Dylid rhoi cymorth digonol i wirfoddolwyr mewn unrhyw sefyllfa fel y gallant gyflawni tasgau'n effeithlon ac yn hyderus. Swyddogaethau ar wahân ond sy'n gorgyffwrdd yw cymorth a goruchwyliaeth a'r ffordd orau o'u symleiddio yw ystyried cymorth fel 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a goruchwyliaeth fel 'canolbwyntio ar waith'. Mae'r ddau yn hanfodol i reoli risg.

Dylai goruchwyliaeth fod yn strwythuredig ac yn ffurfiol gan roi cyfle i fyfyrion ar y gwaith mewn perthynas â safonau a thargedau yr ydych wedi cytuno arnynt yn flaenorol gyda'r gwirfoddolwr. Dylai pob sesiwn oruchwylion ddod i ben gyda chynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol. Dylid cadw cofnodion o faterion a phenderfyniadau a wneir yn ystod y sesiwn oruchwylion gan y bydd y rhain yn ddefnyddiol ar gyfer olrhain problemau a chynnydd.

Gwiriadau Cefndir

Ar gyfer rhai rolau gwirfoddol, bydd angen neu fel rhan o arfer gorau rheoli risg, darganfod hanes troseddol a statws gwahardd darpar wirfoddolwr. Fodd bynnag, ni ddylai cael cofnod troseddol o reidrwydd atal gwirfoddolwr rhag gweithio gyda'ch mudiad. Bydd hyn yn dibynnu ar natur rôl y gwirfoddolwr ac amgylchiadau a chefnidir y troseddau. Bydd angen i fudiad sy'n defnyddio gwiriadau o'r fath sefydlu polisi ar recriwtio cyn-droseddwr.



I gael rhagor o wybodaeth am wiriadau cefndir, gweler y daflen wybodaeth:

4.10 Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd

Diogelu

Polisiau a Gweithdrefnau

Rhaid i bob mudiad gwirfoddol fabwysiadu datganiad polisi ysgrifenedig sy'n nodi ei bolisi ar ddiogelu lles y plant a/neu'r oedolion mewn perygl y mae'n gweithio gyda nhw. Dylai hwn nodi'n glir ddyletswydd pawb a gyflogir gan y mudiad neu sy'n ymwneud ag ef, i atal unrhyw blant a/neu oedolion mewn perygl y maen nhw mewn cysylltiad â nhw rhag cael eu cam-drin.

Mae'n hanfodol bod yr holl staff a'r gwirfoddolwyr, eu rheolwyr llinell neu eu goruchwylwyr, a llunwyr polisi yn cael eu hyfforddi mewn arferion diogelu cyffredinol, materion amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion mewn perygl.



Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Mae gan Gymru un set o ganllawiau ar gyfer pob ymarferydd diogelu a lleoliad, Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Gellir ei lawrlwytho o wefan Diogelu Cymru i ffôn, lechen neu liniadur.

[Lawrlwythwch y Gweithdrefnau Diogelu](#)

Rhaid i weithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed o ganlyniad i'r gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn gael eu cymhwyso i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr yn y mudiad.

Mae angen llinellau atebolrwydd clir ar fudiadau fel ffordd o ddiogelu grwpiau sy'n agored i niwed. Dylai mudiadau sicrhau y dylai'r rhai sy'n uniongyrchol gyfrifol am staff sy'n dod i gysylltiad â phlant a/neu oedolion ddefnyddio arferion rheoli a goruchwyllo da i atal neu ganfod niwed.

Honiadau neu Amheuon o Gam-drin

Dylai mudiad baratoi a chyhoeddi canllawiau ar sut i ddelio â honiadau neu amheuon o gamdriniaeth neu ganfyddiad o gamdriniaeth.

Dylai'r canllawiau hyn gynnwys:

- Nodyn i'ch atgoffa o'r ddyletswydd gofal i atal camdriniaeth, gan gynnwys y cyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw achos o gamdriniaeth honedig neu a amheuir
- Canllawiau ar beth yw cam-drin a sut i'w adnabod
- Cyfarwyddiadau ar bwy i roi gwybod iddynt os honnir, amheuir neu y darganfyddir achos o gamdriniaeth.

Gweler Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru am arweiniad:
[Diogelu Cymru](#)

Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

Dylai'r dull o ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol fod yr un fath p'un ai y bwriedir rhannu gwybodaeth yn fewnol o fewn un mudiad neu rhwng asiantaethau.

Bydd yr angen i rannu gwybodaeth gyfrinachol gydag eraill o fewn eich mudiad eich hun yn digwydd yn amlach na rhwng asiantaethau.



Llun: Llun agos o gabinet ffeilio swyddfa

Mae'n arfer da rhannu gwybodaeth â theuluoedd, a dylid rhagdybio bod yn agored, oni bai y byddai gwneud hynny'n peryglu diogelwch. Efallai y bydd angen trin rhywfaint o wybodaeth sy'n hysbys i weithwyr proffesiynol yn gyfrinachol a pheidio â'i rhannu o flaen aelodau o'r teulu neu ofalwyr, fel gwybodaeth am aelod penodol a allai amharu ar ymchwiliad troseddol neu a allai roi unrhyw unigolyn mewn mwy o berygl o niwed. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch ag adran gwasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol.

Dylai eich datganiad cyfrinachedd dynnu sylw at y rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer diogelu plant a diogelu oedolion. Ar gyfer mudiadau sy'n bartneriaid perthnasol i'r awdurdod lleol fel y'u diffinnir yn [Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), mae ddyletswydd arnynt hefyd i roi gwybod i'r awdurdod lleol am oedolyn mewn perygl neu blentyn mewn perygl.

Diffinnir oedolyn mewn perygl fel oedolyn ag anghenion gofal a chymorth sy'n dioddef neu mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, ac nad yw, oherwydd ei anghenion gofal a chymorth, yn gallu diogelu ei hun. Plentyn mewn perygl yw plentyn ag anghenion gofal a chymorth sy'n dioddef neu mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

Dylai unigolion sy'n gweithio ar y cyd â theuluoedd a/neu ofalwyr ddod i ddealltwriaeth gyffredin ar bob cam o'u hymyrraeth ynghylch pa wybodaeth y dylid ei datgelu i'r teulu a/neu ofalwyr. Dylai unrhyw resymau dros atal gwybodaeth fod yn glir ac wedi'u cofnodi ac o dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl fod yn brif ystyriaeth bob amser.

Bydd adegau pan fydd yn rhaid i unigolyn benderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau rhannu gwybodaeth neu a ydynt yn unol ag unrhyw ofynion deddfwriaethol eraill fel y ddyletswydd statudol i gyfeirio at y **Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS)** mewn rhai amgylchiadau neu unrhyw drefniadau fel **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)** – fframwaith rhannu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â ['Chod Ymarfer Rhannu Data' y Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Gwybodaeth Bellach

Diogelu CGGC

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rhif ffôn : 0800 2888 329

safeguarding@wcva.cymru

<https://wcva.cymru/cy/diogelu/>

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru

WASPI

<http://www.waspi.org/hafan>

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

NSPCC

www.nspcc.org.uk

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Llywodraeth y DU

www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru)

Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.